

Annwyl Olygydd

Yn sgil yr helynt ynglŷn â'r Cofnod, bu cryn sôn am gyfieithu ar dudalennau rhifyn yr wythnos diwethaf o'r *Cymro*. Dafydd Huws am weld llai ohono, Peter Smith am weld y Gymraeg (cyfieithiad gan amlaf, mae'n debyg) yn ymddangos uwchben y Saesneg, Arfon Jones yn brolio'r ffaith fod cyfieithiad o'r Testament Newydd bellach ar gael i'w osod ar ffonau symudol, y llenor Dr Harri Pritchard Jones yn ennill gwobr yn Sardinia ar sail cyfieithiadau o'i waith, Dr J Graham Jones wrth adolygu *Hanes Athroniaeth y Gorllewin* yn nodi bod John Daniels, Dr Meredydd Ifans a Dafydd Glyn Jones wedi cyfieithu rhai o'r cyfraniadau i'r Gymraeg, a Gareth Jones yn y Golofn Dechnoleg yn dweud 'Ddim yn rhy ddrwg' am wasanaeth newydd Google Translate.

Tipyn o gymysgedd, ond ga' i gynnig ambell sylw ar rai o'r uchod? Cwestiwn oesol yw 'beth y dylid ei gyfieithu?'. Flynyddoedd yn ôl, ceisiodd yr hen Swyddfa Gymreig lynu wrth bolisi answyddogol o gyfieithu dim ond dogfennau a oedd yn ymwneud â'r iaith a dogfennau am addysg lle y bernid bod elfen o drafod dysgu Cymraeg ac ystyriaethau tebyg yn cyfiawnhau eu cyfieithu. Ond fe gododd problemau. Yn sgil y tro pedol ynghylch sefydlu S4C, er enghraifft, go brin y gellid cyfiawnhau cyhoeddi'r dogfennau perthnasol yn Saesneg yn unig, serch bod ambell un yn ymdrin â materion cwbl dechnegol a heb fod yn sôn nac yn poeni am iaith y sianel. Cyfieithu'r cyfan oedd yr unig beth call i'w wneud.

Ym maes ieched, codai problem arall. Os ceid cais am fersiwn Cymraeg o holiadur arolwg o ryw faes, onid teg oedd cynhyrchu'r adroddiad ar yr arolwg yn y ddwy iaith? O dipyn i beth, felly, fe agorwyd y drws i fwy a mwy o gyfieithu gan gyrff cyhoeddus a chan eraill yn eu sgil.

Canlyniad i'r holl gyfieithu, mae'n debyg, oedd i gwmni bysiau Western Welsh ddod ar ofyn Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig am gyfieithiad o'u henw newydd 'National Welsh'. Gwelwyd 'Cymru Cenedlaethol', felly, ar fysiau'r cwmni newydd ar hyd a lled Cymru, dros Glawdd Offa ac ar y Cyfandir.

Daw hyn â mi at lythyr Dafydd Huws. 'Anadl bywyd iaith,' meddai, 'yw ei siarad a'i chlywed', a byddwn i'n cytuno'n llawen. Ond mae ei *gweld* hi hefyd yn bwysig am fod hynny'n dylanwadu ar agweddau pobl tuag ati, a byddwn i'n dadlau bod hynny'n fodd i borthi balchder y Cymry di-Gymraeg, yn ogystal â'r Cymry Cymraeg, yn eu hiaith.

O ran Google Translate, fe es ati i fwydo iddo ddarn sydd wedi'i osod cyn hyn yn brawf ar gyfer Aelodaeth *Sylfaenol* o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Rhaid canmol cyflymder y cyfieithu: rhyw eiliad ar y mwyaf. Ond beth oedd safon y cyfieithiad? 'Ddim yn rhy ddrwg,' meddai Gareth Jones. Wel, mae'n flin gen i ddweud wrth Gareth nad oedd y cyfieithiad ges i yn berffaith o gryn dipyn. I fireinio'r cyfieithiad a'i wella hyd at safon dderbyniol, byddwn i wedi treulio llawn cymaint os nad mwy o amser yn ei gyfieithu o 'mhen a 'mhastwn fy hun [trosiad Google Translate: 'of my 'head and my 'mhastwn'].

Fyddwn i ddim yn gwadu fod rhai pethau da yn y cyfieithiad. Synnais braidd iddo ddewis trosi'r gair 'sound' yn gywir - 'cadarn' nid 'sain' - yn y cyd-destun dan sylw, ond go brin y

bydd cyfieithwyr fel fi'n poeni'n rhyw lawer am sbel go lew eto. Ac enwi dim ond ambell wall, methwyd â chynnwys 'mae' ar ddechrau brawddeg ac âi'r rhaglen i'r gors yn llwyr [Google Translate: is the programme to completely bog] wrth gyfieithu'r clymau o enwau y mae'r Saesneg mor hoff ohonyn nhw. Cynddrwg oedd y cyfieithiad o frawddeg ola'r darn nes i mi fethu'n lân â gweld [Google Translate: failing to see clean] unrhyw synnwyr ynddi: byddai'n rhaid ei hailysgrifennu o'i chwr [Google Translate: would need to be hailysgrifennu its chwr].

Rhaid cofio mai cymorth, nid ateb, yw rhaglen o'r fath, a chan fod iaith yn beth cymhleth a chyfieithu rhwng dwy iaith yn fwy cymhleth byth, cymorth i'w defnyddio'n bwyllog iawn yw hi. Yn sicr, byddwn i'n canmol Google am gyflwyno Google Translate, ond tybed ai defnyddio rhaglen debyg iddi sy'n gyfrifol am y geiriau 'Di-dâl Aer a Dŵr' sydd newydd ymddangos ar arwydd newydd sbon danlli [Google Translate: 'sign brand new state of ...'] yng ngorsaf betrol un o siopau Sainsbury's yng Nghaerdydd? 'Rhad ac am ddim Aer a Dŵr' yw trosiad Google Translate ohono, gyda llaw. Er bod hwnnw'n well cynnig, mae'n atgoffa dyn o'r ymadrodd 'mae'r holl eiriau yno, ond nid o reidrydd yn y drefn gywir ...'. Arbedwyd rhai ceiniogau o bosibl, ond nid hanner cymaint â chost codi arwydd cywir yn ei le. A bryn yn rhad [Google Translate: A hill is cheap], ...

Er bod cyfieithu erbyn heddiw'n ddiwydiant enfawr a chwbl hanfodol ar hyd a lled y byd, fe dâl i ni gofio mai mwy a mwy o gyfieithu o'r Saesneg a welwn ni yn hanes bron pob un o ieithoedd y byd. Hynny yw, Saesneg fydd iaith sylfaenol llunio dogfennau ac ati. Ac er mai cwestiwn cyfieithu i'r Gymraeg sy'n ein poeni ni heddiw, mae'n fwy na thebyg y bydd hefyd yn poeni ieithoedd fel y Ffrangeg a'r Almaeneg ac eraill o ieithoedd 'mawr' y byd maes o law. Mae'n ddigon posibl y caiff y penderfyniadau a wneir yng Nghymru heddiw, a'r profiad a ddaw o'u gweithredu, beth dylanwad ar benderfyniadau ynghylch rhai cannoedd o ieithoedd eraill yn y man.

Yn gywir iawn

Berwyn Prys Jones
Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Gelli Glyd
8 Tyn y Cae Grove
Rhiwbeina
Caerdydd
CF14 6DB